Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Red Rose

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/11/2017**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol yn ardal Y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd yw Ysgol Red Rose. Mae'n darparu lleoliadau dydd ar gyfer disgyblion rhwng wyth ac un deg naw oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol a difrifol neu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Agorwyd yr ysgol yn Rhagfyr 2009.

Mae 19 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Saesneg yw mamiaith bron pob un o'r disgyblion. Mae rhai disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Awdurdod lleol Caerdydd sy'n ariannu'r holl leoliadau ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn adeilad cymunedol. Mae'r ysgol wedi ymestyn ei hadeiladau trwy ddefnyddio dau adeilad ychwanegol ar y safle. Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi dirprwy bennaeth a staff addysgu newydd. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd tawel a meithringar ar gyfer disgyblion, ble maent yn teimlo'n ddiogel a hapus.
- Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r ethos cadarnhaol a chefnogol yn yr ysgol. Dangosant barch ac ystyriaeth at ei gilydd ac at staff. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau cymdeithasol a'u hunanhyder tra byddant yn yr ysgol.
- Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf gyda disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn dda iawn i wella eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu.
- Mae'r ysgol wedi penodi dirprwy bennaeth yn ddiweddar i gryfhau arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn realistig ynglŷn â ble mae'r ysgol a'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i wella.

### Meysydd i'w datblygu

- Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.
- Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r perchennog wedi blaenoriaethu ymsefydlu staff newydd i sicrhau eu bod yn deall gweledigaeth, diben a gwerthoedd yr ysgol a'u bod yn gallu dangos hyn yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda'r disgyblion. Fodd bynnag, mae hyn wedi effeithio ar y cynnydd y mae'r ysgol wedi gallu ei wneud yn erbyn yr argymhellion o'r ymweliad monitro diwethaf.

- Nid yw systemau'r ysgol i asesu disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol a mesur eu cynnydd dros gyfnod wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd.
- At ei gilydd, mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o bynciau i ddisgyblion y gallant gael achrediad ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae ystod y cyfleoedd achredu sydd ar gael ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn rhy gyfyngedig.
- Mae uwch arweinwyr yn dechrau datblygu cysylltiadau pwysig â darparwyr eraill i ymestyn ystod y profiadau dysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r rhain ac nid ydynt wedi cael effaith ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion.
- Nid yw cynlluniau gwaith a chynllunio gwersi ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid ydynt yn darparu profiad cydlynus i ddisgyblion nac yn cefnogi dilyniant medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng gwersi a chyfnodau allweddol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Parhau i wella'r broses asesu gwaelodlin i ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu â dysgu

A3 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n fwy abl yn ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd

A4 Parhau i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd a cholegau lle bo'n briodol

A5 Cynllunio ar gyfer dilyniant ym medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r broses asesu gwaelodlin i ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltu â dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi rhoi gweithdrefnau newydd ar waith i asesu medrau disgyblion pan fyddant yn dechrau yno, a sefydlu gwaelodlin i fesur cynnydd ohono. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth seicolegydd addysg i asesu medrau rhifedd, llythrennedd ac iaith disgyblion. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau hyn newydd gael eu rhoi ar waith ac mae gan yr ysgol wybodaeth gywir ar gyfer rhai disgyblion yn unig.

Mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno offeryn i fesur agweddau disgyblion tuag at yr ysgol a'u hymgysylltiad â dysgu. Fodd bynnag, mae'r disgrifwyr yn yr offeryn yn rhy eang i gofnodi'n gywir y camau bach mewn cynnydd a wna disgyblion. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r offeryn ac nid yw disgyblion wedi cael eu hailasesu er mwyn pennu a ydynt wedi gwneud cynnydd yn y meysydd hyn.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod disgyblion sy'n fwy abl yn ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cwblhau adolygiad o'i chynnig achredu presennol. Mae'n ymestyn ystod yr achrediad i gynnwys modiwlau ychwanegol. Mae'r rhain yn cwmpasu testunau sy'n berthnasol yn fras i anghenion a diddordebau disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynrychioli dilyniant o ran lefel cyrhaeddiad. Megis dechrau datblygu partneriaethau gyda darparwyr allanol y mae'r ysgol i ymestyn cyfleoedd i rai disgyblion elwa ar achrediad ar lefel uwch. Mae'n gynnar i asesu effaith y datblygiad hwn.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd a cholegau, lle bo'n briodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Hyd yma, nid yw'r ysgol wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion weithio ochr yn ochr ag eraill mewn lleoliadau gwaith, ysgolion prif ffrwd na cholegau. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol gynlluniau manwl i ehangu ei darpariaeth oddi ar y safle i ddarparu adeiladau ychwanegol ar gyfer disgyblion. Mae gan y datblygiad hwn y potensial i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o'r ysgol elwa ar gyfleoedd profiad gwaith pwrpasol mewn caffi cymunedol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod polisi'r cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i bod yn eu rhoi ar waith yn effeithiol [1(2)]
- sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol a bod gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio. [1(3)(c)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Red Rose |
| **Rhif yr ysgol** | 6816095 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11/09/2017 |
| **Perchennog** | Mr Huw Pockett |
| **Staff** | 1 pennaeth,1 dirprwy bennaeth, 2 reolwr addysgu a dysgu,1 cynorthwyydd bugeiliol, 11 tywysydd dysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 19 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau dysgu cymedrol, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 06/01/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/04/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Rhowch destun |